# Canllawiau asesu effaith

Cyhoeddwyd 19 Gorffennaf 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ..... 3
2. Beth yw asesiad effaith? ..... 4
3. Pa bryd bydd Ofcom yn cynnal asesiad effaith? ..... 8
4. Datblygu’r asesiad effaith ..... 13

# 1. Trosolwg

1.1 Ofcom yw’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y sector cyfathrebu. Rydyn ni’n rheoleiddio’r sectorau teledu, radio, ar-lein a fideo ar-alw, telegyfathrebiadau llinellau sefydlog, ffonau symudol, gwasanaethau post a’r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio.

1.2 Rydyn ni’n cyflawni amrywiaeth o ymyriadau polisi er budd dinasyddion a defnyddwyr, a hynny drwy hybu cystadleuaeth pan fo’n briodol. Gall ein hymyriadau gynnwys monitro ac ymgysylltu anffurfiol, yn ogystal â gofynion cyfreithiol rwymol a chamau gorfodi.

1.3 Mae gennym gyfres o egwyddorion rheoleiddio cyffredinol i arwain ein ffordd o weithredu, gan gynnwys ein bod:

a) yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn gadarn, yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen;

b) yn ceisio sicrhau y bydd ein hymyriadau’n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau;

c) bob amser yn ceisio defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi.

1.4 Rydyn ni’n cydnabod bod y penderfyniadau rydyn ni’n eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i’n rhanddeiliaid. Felly, mae’n bwysig ein bod yn meddwl yn ofalus cyn penderfynu a fyddai ymyriad polisi penodol yn briodol.

1.5 Rydyn ni’n defnyddio asesiadau effaith i’n helpu i ddeall ac asesu effaith bosib ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio’r penderfyniadau polisi rydyn ni wedi penderfynu eu gwneud.

1.6 Mae’r canllawiau hyn yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig. Mae’n diweddaru ein canllawiau blaenorol i adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol, yn ogystal â’r arferion gorau a phrofiadau.

1.7 Byddwn yn parhau i adolygu ein canllawiau a byddwn yn eu diweddaru o bryd i’w gilydd fel y bo’n briodol yn ein barn ni, er enghraifft pan fydd ein dyletswyddau’n newid. Bydd natur y diweddariad yn llywio a ydyn ni’n ymgynghori ar fersiwn wedi’i diweddaru o’r canllawiau hyn ai peidio. Er enghraifft, efallai na fyddwn yn ymgynghori ar newidiadau sydd dim ond yn diweddaru’r canllawiau i nodi dyletswyddau newydd neu i ddiwygio cyfeiriadau at ddeddfwriaeth.

# 2. Beth yw asesiad effaith?

Mae asesiad effaith yn broses wedi'i strwythuro ar gyfer ystyried effeithiau posib ein cynigion

## Cyflwyniad

2.1 Yn Ofcom, rydyn ni'n defnyddio ein cynllun gwaith blynyddol i nodi'r hyn rydyn ni'n disgwyl ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, gan ystyried ein dyletswyddau. I gyflawni ein hamcanion, rydyn ni'n gwneud amrywiaeth eang o benderfyniadau polisi sy'n cyflawni ein dyletswyddau. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

a) ein prif ddyletswydd, sef hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, a hynny drwy hybu cystadleuaeth pan fo'n briodol;[1]
b) ein dyletswyddau penodol i sectorau perthnasol;[2]
c) dyletswyddau i ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys yr angen i gael gwared ar wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a hybu cyfleoedd cyfartal.[3]

2.2 Rydyn ni'n gwneud penderfyniadau o amryw o wahanol fathau: gallant fod yn berthnasol i sector cyfan, ee pan fyddwn yn gosod dyletswyddau ar yr holl ddarlledwyr ynghylch sut dylent weithredu; gallant fod yn berthnasol i ddim ond un gweithredwr mewn sector, fel y dyletswyddau rydyn ni'n eu gosod ar Openreach neu'r Post Brenhinol; gallant fod yn ymyriadau 'ysgafnach', ee pan fyddwn yn cyhoeddi canllawiau ar yr arferion gorau; gallant ddiffinio marchnadoedd, ee pan fyddwn yn arwerthu trwyddedau i ddefnyddio bandiau sbectrwm penodol; neu gallant fod yn newidiadau mwy mân, ee pan fyddwn yn amrywio amodau'r trwyddedau hynny.

2.3 O ystyried hyd a lled ac amrywiaeth ein penderfyniadau, mae'n hynod bwysig deall yr effeithiau posib gallem eu creu cyn gweithredu. Mae asesiad effaith yn broses wedi'i strwythuro ar gyfer ystyried yr effeithiau posib hyn, gan gynnwys:

a) yr effeithiau cyffredinol ar ddinasyddion a defnyddwyr;
b) yr effeithiau ar y diwydiannau rydyn ni'n eu rheoleiddio;
c) yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb.[4]

2.4 Rydyn ni'n ystyried effeithiau posib ein penderfyniadau drwy gydol prosiect ac yn crynhoi ein rhesymeg a'n tystiolaeth i'w cyflwyno i randdeiliaid mewn ymgynghoriad a datganiad. Gall ein dadansoddiad fod yn feintiol (rhoi ffigur ar y gwahanol gostau a manteision), yn edrych ar y gwahanol effeithiau o safbwynt ansoddol, neu'n gymysgedd o'r ddau.

2.5 Weithiau mae deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd, sy'n golygu bod Senedd y DU yn ystyried ei bod hi'n briodol ymyrryd. Mewn achosion eraill, efallai fod deddfwriaeth yn

[1] Mae adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf Cyfathrebiadau") yn nodi ein prif ddyletswydd, sef hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebu, a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, a hynny drwy hybu cystadleuaeth pan fo'n briodol.
[2] Mae enghreifftiau o'r dyletswyddau penodol i sectorau hyn yn nhroednodyn 11 isod.
[3] Rydyn ni'n trafod ein dyletswyddau i ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl ym mharagraffau 3.9 – 3.23 isod.
[4] Rydyn ni'n nodi grwpiau penodol o bobl y gallai ein penderfyniadau effeithio arnynt ym mharagraff 4.7 isod.

mynnu ein bod yn adolygu marchnad neu faes penodol, a phenderfynu a ddylem ymyrryd ai peidio. Neu gallwn nodi marchnad neu faes nad yw'n gweithredu'n dda yn ein barn ni, a byddwn yn ystyried ymyrryd i gyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion.

2.6 Cawn ddefnyddio asesiadau effaith lle mai ein penderfyniad ni yw ymyrryd ai peidio, a sut mae ymyrryd. Gallwn eu defnyddio fel adnodd i'n helpu i benderfynu pryd i ymyrryd ac os ydyn ni'n ymyrryd, y ffordd orau o wneud hynny er mwyn cyflawni ein hamcanion.

2.7 Mae Adran 3 isod yn amlinellu ein rhwymedigaethau cyfreithiol mewn cysylltiad ag asesiadau effaith, gan gynnwys y math o benderfyniadau y byddwn yn penderfynu peidio â chynnal un ar eu cyfer o bosib.

## Rôl asesiadau effaith yn ein penderfyniadau polisi

2.8 Mae asesiadau effaith yn chwarae rôl bwysig yn ein penderfyniadau polisi:

a) maen nhw'n ein helpu i lunio cynigion polisi ac i benderfynu a ydyn ni am fwrw ymlaen â chynigion penodol;
b) maen nhw'n helpu rhanddeiliaid i ddeall y dystiolaeth a'r rhesymeg sy'n sail i gynnig penodol; ac yn rhoi sail iddynt ymateb â'u tystiolaeth a'u safbwyntiau eu hunain;
c) maen nhw'n ein helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau polisi yn gymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a'n bod yn gwneud y penderfyniadau gorau i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr;[5]
d) maen nhw'n ein helpu i sicrhau bod ein proses gwneud penderfyniadau yn dryloyw;[6]
e) maen nhw'n ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys mewn cysylltiad â chydraddoldeb.

2.9 I wneud penderfyniadau polisi da, rhaid inni fod yn glir ynghylch yr hyn rydyn ni am ei gyflawni, yr effaith ddisgwyliedig ac yn nes ymlaen, deall beth ddigwyddodd yn ymarferol.

2.10 Fel llunwyr polisïau, rydyn ni'n aml yn cydbwyso llawer o ffactorau wrth benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni ein hamcanion. Yn gyffredinol, mae ein proses llunio polisi yn cynnwys nodi ystod o randdeiliaid y gallai penderfyniad effeithio arnynt,[7] ac ystod o wahanol effeithiau, gan gynnwys niwed i ddefnyddwyr a phryderon ynglŷn â chystadleuaeth a buddsoddi.

2.11 Byddwn yn dechrau ystyried effeithiau posib ymyriad polisi yng nghamau cyntaf prosiect. Mae hyn yn ein helpu i lunio cynnig polisi o ran a ydyn ni am ymyrryd ai peidio, ac os felly sut rydyn ni am ymyrryd, gan ystyried y fframwaith cyfreithiol perthnasol. Byddwn yn ystyried ac yn adolygu effeithiau posib yn barhaus drwy gydol prosiect a, lle bo'n briodol, yn diwygio ein hasesiad effaith wrth i'n safbwyntiau ddatblygu. Mae'r holl waith hwn yn cael ei grynhoi yn yr ymgynghoriad a'r datganiad. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau gorau i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

2.12 Bydd ein dogfennau ymgynghori a llunio polisi yn nodi'n glir pam ein bod yn ystyried neu'n cynnig gwneud dewisiadau penodol. Mae asesiad effaith yn rhan bwysig o'r broses

[5] Mae ein prif ddyletswydd wedi'i nodi yn adran 3(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae adran 3(3)(a) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn nodi *"y dylai ein gweithgareddau rheoleiddiol fod yn … gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu"*.
[6] Mae adran 3(3)(a) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn nodi *"y dylai ein gweithgareddau rheoleiddiol fod yn "dryloyw".*
[7] Rydyn ni'n nodi gwahanol fathau o randdeiliaid y gallai cynnig effeithio arnynt ym mharagraff 4.7 isod.

ymgynghori hon drwy nodi effeithiau (o ran unrhyw gostau a manteision) cynnig ar wahanol randdeiliaid a, lle bo'n briodol, ar weithrediad marchnad. Bydd ein hymgynghoriad hefyd yn cynnwys digon o fanylion i alluogi rhanddeiliaid i ymateb. Drwy wneud hyn, rydyn ni'n sicrhau bod modd craffu ar yr asesiad effaith a'i addasu fel y bo'n briodol.

2.13 Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad cyn gwneud ein penderfyniad, a fydd yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth ac, yn ein barn ni, y ffordd fwyaf cymesur a lleiaf ymwthiol o gyflawni ein hamcanion. Y penderfyniad rydyn ni'n ei gymryd fydd yr un sy'n cyd-fynd agosaf â'n dyletswyddau yn ein barn ni (gan gynnwys ein prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, dyletswyddau penodol i sectorau perthnasol, a'n dyletswyddau i ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl).

2.14 Byddwn yn cyflwyno ein penderfyniad terfynol mewn datganiad ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd y datganiad yn esbonio ein rhesymau a'n tystiolaeth sy'n sail i'n penderfyniad, gan gynnwys unrhyw addasiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'n hasesiad effaith.

2.15 Drwy nodi'r hyn rydyn ni'n disgwyl i bolisi ei gyflawni a'i effeithiau posib, bydd hi'n haws inni fonitro a gwerthuso ein penderfyniadau yn nes ymlaen. Mae hyn yn caniatáu inni ddeall effaith go iawn ein penderfyniadau pan fyddwn yn credu bod hynny'n debygol o fod yn fuddiol. Mae gwerthusiadau ac asesiadau terfyn rhaglen yn ein helpu i wneud gwell penderfyniadau polisi drwy ddysgu beth sydd wedi gweithio yn ôl y disgwyl, a lle na chafodd ein disgwyliadau eu gwireddu.

Rhaid i asesiad effaith ystyried manteision, costau a risgiau'r polisi

## Ffurf a chynnwys asesiad effaith

2.16 Fel yr esboniwyd uchod, byddwn yn ystyried ac yn adolygu effeithiau posib ymyriad arfaethedig drwy gydol prosiect. Byddwn yn penderfynu ar ffurf a chynnwys priodol asesiad effaith fesul achos. Bydd hyn yn dibynnu ar natur yr ymyriad polisi dan sylw, ein rhwymedigaethau statudol perthnasol, a'r hyn sy'n gymesur yn yr amgylchiadau yn ein barn ni.

2.17 Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, a hynny drwy hybu cystadleuaeth pan fo'n briodol.[8] Wrth wneud hynny, rhaid inni roi sylw i'r materion perthnasol a nodir yn y Ddeddf Cyfathrebiadau.[9] Mae'r rhain yn cynnwys ystyried pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth, buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo hynny'n berthnasol.[10] I gyflawni ein dyletswyddau, bydd asesiad effaith, yn gyffredinol:

a) yn nodi'r canlyniad dymunol, gan gydbwyso mwy nag un amcan mewn rhai achosion;
b) yn nodi effeithiau cyffredinol cynnig ar ddinasyddion a defnyddwyr, yr effeithiau ar y diwydiannau rydyn ni'n eu rheoleiddio ac unrhyw effaith ar grwpiau penodol o bobl;

[8] Gweler adran 3(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.
[9] Mae Adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau'n esbonio bod yn rhaid inni roi sylw i'r amrywiol faterion a nodir yn yr is-adran honno wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol yn ein tyb ni yn yr amgylchiadau. Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, hefyd yn mewnosod is-adran 4A newydd yn adran 3 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac yn mynnu ein bod yn rhoi sylw i'r gwahanol faterion a nodir yn yr is-adran honno, fel y bo'n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni.
[10] Adrannau 3(4)(b) a (d) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

c) yn nodi unrhyw effeithiau gallai'r cynnig eu cael ar gystadleuaeth neu'r farchnad ehangach;
d) yn nodi a, lle bo'n bosib ac yn gymesur, yn mesur costau a manteision disgwyliedig y cynnig;
e) yn asesu prif risgiau posib y prosiect;

- yn ystyried sut byddai modd monitro neu werthuso llwyddiant y prosiect, lle bo hynny'n briodol.

2.18 Wrth benderfynu ar gynnwys priodol asesiad effaith, byddwn hefyd yn ystyried (a) unrhyw ddyletswyddau penodol i sectorau sy'n berthnasol yn ein barn ni;[11] a (b) unrhyw rwymedigaethau statudol sy'n gosod gofynion penodol o ran pryd neu sut mae'n rhaid i ni gynnal asesiadau effaith (gweler paragraff 3.8 isod). Mae rhagor o wybodaeth am gynnwys asesiad effaith yn adran 4 isod.

2.19 Bydd ein dull o gyflwyno'r asesiad effaith hefyd yn amrywio yn dibynnu ar yr hyn sy'n briodol yn yr amgylchiadau yn ein barn ni. Er enghraifft:

a) gan fod y materion sydd dan sylw mewn asesiad effaith yn hollbwysig i'r cynnig polisi, efallai y bydd ymgynghoriad yn integreiddio'r asesiad effaith drwy'r ddogfen gyfan. Er enghraifft, gallai ymgynghoriad mawr sy'n cynnwys nifer o gynigion polisi amlinellu'r dystiolaeth ar gyfer pob cynnig polisi ar wahân, wedi'i ddilyn gan ein hasesiad o'i effaith a rhesymeg ein cynnig;
b) mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn penderfynu cyhoeddi'r asesiad effaith, neu ddadansoddiad technegol a gynhelir fel rhan o'r asesiad, fel adran ar wahân mewn ymgynghoriad neu fel atodiad;
c) mewn achosion eraill, efallai y bydd strwythur ein dadansoddiad wedi'i ddiffinio gan ddeddfwriaeth, ac felly byddai'r asesiad effaith yn cael ei integreiddio yn y fframwaith hwnnw.[12] Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn yn defnyddio dull gwahanol neu fwy cyfyngedig o gyflwyno asesiad effaith, o'i gymharu â'r dull o gyflwyno asesiadau effaith mewn achosion eraill.

2.20 Beth bynnag, yn gyffredinol bydd ein dogfennau ymgynghori'n cynnwys adran o'r enw "Asesiad Effaith" (neu debyg) a fydd naill ai'n crynhoi canlyniadau ein hasesiad effaith neu'n nodi ble rydyn ni wedi cyhoeddi'r canlyniadau hynny yn yr ymgynghoriad. Os yw ein hasesiad effaith wedi'i integreiddio drwy ddogfen gyfan, efallai y byddwn yn darparu trosolwg cyfunol o effaith ddisgwyliedig polisi hefyd. Er y byddai'r crynodeb hwn yn brin o fanylion ein rhesymeg lawn o reidrwydd, gallai helpu rhanddeiliaid i symud drwy ddogfen hir a gwybod ar ba rannau dylent ganolbwyntio.

---

[11] Ymysg yr effeithiau mae (a) unrhyw o'r materion penodol i sectorau a nodir yn adran 3(2) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; (b) ein dyletswyddau yn adran 3 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006; (c) ein dyletswyddau yn adran 29 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011; (d) ein dyletswyddau mewn cysylltiad â radio lleol yn adran 314 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; (e) ein dyletswydd mewn cysylltiad â rhifo yn adran 63 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; (f) ein dyletswydd i sicrhau cydymffurfedd â dyletswyddau diogelwch yn adran 105M o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; a (g) ein dyletswyddau yn Erthygl 45(2) o Siarter y BBC.
[12] Rydyn ni'n nodi enghreifftiau o ddeddfwriaeth yn amlinellu gofynion penodol o ran pryd a sut mae'n rhaid inni gynnal asesiadau effaith ym mharagraff 3.8 isod.

# 3. Pa bryd bydd Ofcom yn cynnal asesiad effaith?

3.1 Un adnodd yn ein proses llunio polisi yw asesiadau effaith. Mae’r adran hon yn amlinellu ein rhwymedigaethau cyfreithiol o ran asesiadau effaith a’r egwyddorion cyffredinol mewn cysylltiad â’u defnydd yn Ofcom.

> Byddwn yn cynnal asesiad effaith ar gyfer mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi

## Ein rhwymedigaeth gyffredinol i asesu effeithiau

3.2 Mae adran 7 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau yn nodi bod yn rhaid i Ofcom gynnal a chyhoeddi asesiad effaith:

a) pan fyddwn yn cynnig gwneud unrhyw beth sy’n ymwneud â’r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau;
b) pan fydd cynnig yn bwysig yn ein tyb ni;
c) oni bai fod natur frys y mater yn golygu ei bod hi’n anymarferol neu’n amhriodol cydymffurfio.

3.3 Mae’r Ddeddf Cyfathrebiadau yn dweud bod cynnig yn “bwysig” os byddai’n debygol o arwain at o leiaf un o’r canlynol:

a) newid sylweddol yng ngweithgareddau Ofcom;
b) effaith sylweddol ar bobl sy’n cynnal busnes yn y marchnadoedd mae Ofcom yn eu rheoleiddio;
c) effaith sylweddol ar y cyhoedd yn y DU neu mewn rhan o’r DU.

3.4 Gan dybio nad yw natur frys y mater yn golygu ei bod hi’n anymarferol neu’n amhriodol cydymffurfio, rhaid inni gynnal asesiad effaith os ydyn ni’n gwneud cynnig “pwysig”. Mae eithriad os ydyn ni’n credu bod hynny’n ddiangen. Os felly, rhaid inni gyhoeddi datganiad yn nodi pam. Rydyn ni’n darparu enghreifftiau isod o’r adegau pan allai asesiad effaith fod yn ddiangen fel rheol.

## Yr adegau pan na fydd Ofcom yn cynnal asesiad effaith

3.5 Mae’r rhwymedigaeth gyffredinol i gynnal asesiadau effaith yn y Ddeddf Cyfathrebiadau yn eang. Er y gellid dadlau a yw cynnig yn “bwysig” ai peidio o fewn ystyr y Ddeddf Cyfathrebiadau o bosib, rydyn ni’n cydnabod bod asesiadau effaith yn arfer da wrth lunio polisi ac felly rydyn ni’n disgwyl eu cynnal mewn cysylltiad â mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi (gan gynnwys polisïau a phrosesau newydd neu ddiwygiedig.

3.6 Bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen inni gynnal asesiad effaith yn dibynnu ar natur y cynnig rydyn ni’n ei gyflwyno, yn benodol (i) a oes rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd benodol ac (ii) a yw cynnig unigol yn gweithredu polisi neu broses sydd eisoes wedi bod yn destun asesiad effaith. Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle na fydd angen asesiad effaith fel rheol:

a) pan fydd deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd mewn ffordd benodol[13] (ond gallwn gynnal asesiad effaith os oes gennym ddisgresiwn o ran ein hunion ffordd o ymyrryd);
b) pan fyddwn yn ystyried ceisiadau unigol y mae'n ofynnol i ni benderfynu arnynt naill ai (i) yn unol â meini prawf statudol; [14] neu (ii) gan roi sylw i offeryn a wnaed o dan ddeddfwriaeth lle mae'r offeryn hwnnw'n cyfyngu ar y materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu ar y cais; [15]
c) wrth gynnal ymchwiliad oherwydd bydd yr hyn sy'n cael ei orfodi wedi cael ei roi ar waith o ganlyniad i asesiad effaith a/neu ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth;[16]
d) wrth ddatrys anghydfod lle mae'r anghydfod yn ymwneud â rheoliad sydd wedi cael ei roi ar waith o ganlyniad i asesiad effaith a/neu ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth;[17]
e) wrth gyhoeddi canllawiau ynghylch sut byddwn yn cynnal ymchwiliadau. Yn gyffredinol, bydd canllawiau o'r fath yn darparu rhagor o wybodaeth am faterion gweithdrefnol o ran sut byddwn yn cyflawni rhwymedigaethau sydd wedi'u creu gan ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ar ôl cynnal asesiad effaith.

3.7 Pan na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rhan o broses ymgynghori, byddwn yn esbonio pam.

## Rhwymedigaethau penodol i sectorau

3.8 Fel y nodwyd ym mharagraff 2.18 uchod, byddwn yn ystyried unrhyw ddyletswyddau penodol i sectorau sy'n berthnasol yn ein barn ni wrth benderfynu ar gynnwys priodol asesiad effaith. Hefyd, efallai y bydd gennym rwymedigaethau statudol sy'n gosod gofynion penodol o ran pryd neu sut mae'n rhaid inni gynnal asesiadau effaith. Er enghraifft:

a) Bydd y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn mewnosod is-adrannau newydd, 4A a 4B, i adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac yn mynnu ein bod yn ystyried effaith debygol ein hymyriadau mewn cysylltiad â'n swyddogaethau diogelwch ar-lein ar fusnesau bach a microfusnesau yn benodol.[18]
b) Mae adran 107 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu ein bod yn ystyried y materion penodol a nodir yn yr adran honno cyn rhoi pwerau o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig i ddarparwr rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig neu systemau seilwaith.

---

[13] Byddem hefyd yn disgwyl bod asesiad effaith wedi cael ei gynnal cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno.
[14] Er enghraifft, os bydd unigolyn yn gwneud cais am drwydded gwasanaeth cynnwys trwyddedadwy teledu (TLCS), rhaid i Ofcom roi'r drwydded oni bai fod unrhyw o'r meini prawf a nodir yn adran 235(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau wedi'u bodloni.
[15] Er enghraifft, os bydd rhywun yn gwneud cais i Ofcom am ddyrannu rhifau ffôn, mae Amod B1.11 yn yr Amodau Hawliau Cyffredinol (a osodir yn unol â'n pŵer o dan adran 45 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau) yn mynnu bod Ofcom yn penderfynu ar y cais gan ystyried y darpariaethau yn y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (a gyhoeddir o dan adran 56 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau).
[16] Enghraifft bosib yw os ydyn ni'n cymryd camau gorfodi o dan adran 96A o'r Ddeddf Cyfathrebiadau lle mae gennym sail resymol dros gredu bod amod a nodir yn adran 45 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau wedi'i dorri.
[17] Enghraifft bosib yw os ydyn ni'n datrys anghydfod o dan adran 188 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau mewn cysylltiad â darparu mynediad i'r rhwydwaith.
[18] Rydym yn disgwyl i'r Bil Diogelwch Ar-lein ddod yn gyfraith yn nes ymlaen yn 2023 a dylid darllen cyfeiriadau at y Bil fel cyfeiriadau at y Ddeddf Diogelwch Ar-lein os a phan y daw'n gyfraith. Efallai y byddwn hefyd wedyn yn diweddaru'r canllawiau hyn heb ymgynghoriad i adlewyrchu'r ffaith bod y Bil wedi dod yn gyfraith.

c) Mae adran 106 o Ddeddf Darlledu 1990 yn mynnu ein bod yn ystyried y materion penodol a nodir yn yr adran honno o ran cymeriad a darpariaeth gwasanaethau radio lleol wrth ystyried trwyddedau gwasanaethau o'r fath.

## Rhwymedigaethau i ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl

3.9 Mae gennym hefyd rwymedigaethau statudol sy'n mynnu ein bod yn ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl wrth lunio cynigion polisi. Sef:

a) ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf Cydraddoldeb") ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf Gogledd Iwerddon"), gan gynnwys yr effeithiau posib ar y grwpiau o bobl y nodir yn yr adrannau hynny bod ganddynt nodweddion gwarchodedig;
b) yr effeithiau posib ar anghenion a buddiannau'r grwpiau o bobl a nodir yn adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau;[19]
c) lle bo Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, yr effeithiau posib ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### Dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus

3.10 Mae adran 149(1) o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

3.11 Mae adran 149(1) hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

3.12 Mae adran 149(3) o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn esbonio bod rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfleoedd cyfartal yn cynnwys ystyried yr angen i wneud y canlynol:

a) dileu neu leihau'r anfanteision sy'n wynebu pobl o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig;
b) bodloni anghenion penodol pobl â nodweddion gwarchodedig;
c) annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

3.13 Mae adran 149(5) o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn esbonio bod rhoi sylw dyledus i'r angen i feithrin cysylltiadau da yn cynnwys ystyried yr angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

3.14 Mae adran 75(1) o Ddeddf Gogledd Iwerddon yn gosod dyletswydd ar wahân ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn cysylltiad â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen

[19] Fel y nodwyd uchod, bydd y Bil Diogelwch Ar-lein, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn mewnosod is-adrannau newydd, 4A a 4B, i adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac yn mynnu ein bod yn ystyried effaith debygol ein hymyriadau mewn cysylltiad â'n swyddogaethau diogelwch ar-lein ar fusnesau bach a microfusnesau yn benodol.

i hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl o wahanol gred grefyddol, barn wleidyddol, grŵp hil, oedran, statws priodasol neu gyfeiriadedd rhywiol; rhwng dynion a merched yn gyffredinol; rhwng pobl ag anabledd a phobl heb anabledd; a rhwng pobl â dibynyddion a phobl heb ddibynyddion.

3.15 Mae adran 75(2) o Ddeddf Gogledd Iwerddon hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw i ba mor ddymunol yw hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gred grefyddol, barn wleidyddol neu grŵp hil.

3.16 Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn esbonio sut rydyn ni'n cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gogledd Iwerddon.[20]

## Adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau

3.17 Yn ogystal â'n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus, mae adran 3(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu ein bod yn rhoi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol yn yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau yn ein barn ni yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt;
b) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel;
c) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

3.18

3.19 Rydyn ni'n esbonio sut rydyn ni'n asesu effeithiau ein cynigion ar grwpiau penodol o bobl ym mharagraff 4.34 – 4.37 isod.

I'n helpu i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol, fel rheol byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn cysylltiad â pholisïau a phrosesau newydd neu ddiwygiedig. Bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen inni gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn dibynnu ar natur y cynnig rydyn ni'n ei gyflwyno, yn benodol (i) a oes rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd benodol ac (ii) a yw cynnig unigol yn gweithredu polisi neu broses sydd eisoes wedi bod yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'r enghreifftiau ym mharagraff 3.6 uchod o'r sefyllfaoedd lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rheol hefyd yn enghreifftiau o sefyllfaoedd lle na fyddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fel rheol.

## Effeithiau ar y Gymraeg

3.20 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[21] I roi hyn ar waith, rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

[20] https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/how-ofcom-is-run/nations-and-regions/northern-ireland
[21] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

3.21 Mae'r safonau sy'n cael eu cyhoeddi i Ofcom wedi'u rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom, a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017[22] ac sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys ein cynigion polisi.[23]

3.22 Rydyn ni'n ystyried a yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol wrth lunio cynigion polisi sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).

3.23 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydyn ni'n ystyried effaith bosib cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) ar beidio â thrin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol. Wrth ymgynghori ar y cynnig polisi, byddwn yn gofyn am safbwyntiau ar y materion hyn a byddwn yn ystyried yr ymatebion wrth wneud ein penderfyniad terfynol.

[22] Hysbysiad cydymffurfio.
[23] Gweler, yn benodol, Safonau 84 – 93. Yn ogystal â'n cynigion polisi, gall Safonau'r Gymraeg fod yn berthnasol pan fydd Ofcom yn cynnal ymchwil i'r farchnad neu weithgareddau cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn Gymraeg ar gael ar ein gwefan.

# 4. Datblygu'r asesiad effaith

Byddwn yn ystyried ac yn adolygu effeithiau posib yn barhaus drwy gydol prosiect a, lle bo'n briodol, yn diwygio ein hasesiad effaith wrth i'n safbwyntiau ddatblygu.

4.1 Mae asesiad effaith yn broses o feddwl dadansoddol. Rydyn ni wedyn yn crynhoi'r broses honno a'i chyflwyno i randdeiliaid yn ein hymgyngoriadau a'n datganiadau.


4.2 Mae'n broses ailadroddus, yn hytrach nag un llinol. Byddwn yn dadansoddi yn ôl yr angen ar gyfer prosiect penodol. Efallai y byddwn yn dychwelyd i 'gamau' blaenorol i ddadansoddi maes penodol ymhellach, i adolygu ein safbwyntiau ar ôl cael gwybodaeth newydd, i ddatblygu ein safbwyntiau ymhellach pan ddaw hi'n amlwg fod angen rhagor o fanylder, ac ati.

4.3 Rydyn ni'n defnyddio'r egwyddor cymesuredd wrth asesu effeithiau posib; dylai manylder dadansoddiad fod yn gymesur ag effaith bosib y penderfyniad sydd dan sylw. Yn syml, fel y mae maint neu gymhlethdod effaith bosib yn cynyddu, felly y mae'r angen am asesiad effaith manylach. Mewn rhai achosion, efallai mai dim ond un dewis polisi realistig sy'n bodoli, er enghraifft os yw cwmpas y cwestiwn polisi yn rhy gul neu fod deddfwriaeth yn cyfyngu ar ein pwerau yn y maes; efallai y bydd yr asesiad effaith yn llai helaeth mewn sefyllfaoedd o'r fath.

4.4 Mae pedair prif elfen yn rhan o'r gwaith o asesu effaith debygol ein penderfyniadau:

a) deall rhagor am y sefyllfa a chwmpas prosiect;
b) archwilio posibiliadau a ffurfiol ein safbwyntiau;
c) asesu cynnig;
d) cyflwyno ein rhesymeg a'n tystiolaeth.


**Ffigur 1: Diagram o'r pedair prif elfen mewn asesiad effaith**



## Deall a chwmpasu

4.5 Yng ngham cyntaf prosiect, ein nod yw deall y sefyllfa a pham ein bod yn ystyried ymyrryd. Yn benodol, byddwn yn ystyried pa ddyletswyddau cyfreithiol a allai fod yn berthnasol, y math o randdeiliaid yr effeithir arnynt o bosib, a'r math o wybodaeth y gallai fod ei hangen arnom i ddeall y sefyllfa'n well.

4.6 Yn Ofcom rydyn ni'n rheoleiddio nifer o sectorau, gyda phwerau a chyfrifoldebau amrywiol ym mhob un. Ar ben hynny, bydd y mathau o benderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud ar draws ac yn yr holl sectorau hyn yn amrywio'n sylweddol o ran graddfa a chwmpas. Efallai y bydd deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd mewn rhai achosion, er enghraifft mynnu ein bod yn cynnal adolygiad cyfnodol o farchnad neu roi deddfwriaeth newydd ar waith. Mewn achosion eraill, ein penderfyniad ni yw ymyrryd ai peidio ac os ydyn ni'n ymyrryd, sut mae gwneud hynny. Bydd y cyd-destun hwn yn dylanwadu ar ein cwmpasu a'n safbwyntiau dilynol.




4.7 Byddwn yn nodi ar bwy y mae ymyriad posib yn debygol o effeithio ac a yw'r effaith arnynt yn debygol o fod yn wahanol i'r effaith ar y boblogaeth gyffredinol. Gallai hyn gynnwys nodi is-grwpiau penodol fel:

a) gwahanol fathau o randdeiliaid yn y diwydiant, gan gynnwys pobl sy'n rhedeg busnesau o wahanol fathau a maint, yn benodol busnesau bach a microfusnesau;
b) gwahanol fathau o ddefnyddwyr o bob oed;
c) pobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, gan gynnwys pobl sy'n credu eu bod yn anabl o ganlyniad i rwystrau mewn cymdeithas[24] neu i gyflwr iechyd penodol;[25]
d) pobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig eraill a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb;
e) pobl agored i niwed, gan gynnwys plant;
f) pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol;
g) pobl mewn gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau;
h) pobl mewn ardaloedd trefol a gwledig.

4.8 Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein prosesau ymgynghori mor agored a chynhwysol â phosib er mwyn inni gasglu amrywiaeth eang o safbwyntiau, a rhoi cyfle i wahanol grwpiau o bobl rannu eu safbwyntiau ar unrhyw newidiadau rydyn ni'n eu cynnig cyn inni eu rhoi ar waith. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn ystyried y ffordd orau o roi gwybod i bobl y mae cynnig yn debygol o effeithio'n benodol arnynt (gan gynnwys grwpiau a chymunedau dan anfantais neu heb gynrychiolaeth ddigonol) am ymyriad posib, ac yn eu hannog i gymryd

[24] Er enghraifft, adeiladau sy'n ffisegol anhygyrch, stigma ynghylch cyflyrau iechyd neu agweddau negyddol at bobl niwrowahanol.
[25] Er enghraifft, profiad bywyd o gyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau poen cronig, niwrowahaniaeth neu anawsterau dysgu.

rhan yn ein proses ymgynghori.[26] Wrth wneud hynny, efallai y byddwn yn credu ei bod hi'n briodol trafod cynnig â chymunedau a chyrff cynrychioliadol mewnol ac allanol perthnasol.[27] Efallai y byddwn hefyd yn cynnal ymchwil i'r farchnad i gael safbwyntiau grwpiau penodol o bobl neu gymunedau yr effeithir arnynt yn benodol o bosib yn ein barn ni.

4.9 Bydd deall a chwmpasu yn digwydd ar ddechrau prosiectau bob amser, ond gellir dychwelyd at hyn os daw gwybodaeth newydd i'r fei, os bydd y sefyllfa'n newid, neu os byddwn yn penderfynu bod angen ymchwilio ymhellach i'n helpu i lunio cynnig.

4.10 Mewn rhai meysydd, efallai y byddwn yn teimlo bod gennym ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa eisoes, ac mai dim ond amlinellu hynny sydd angen. Mewn eraill, efallai y byddwn yn dymuno cynllunio ymchwil pellach a gallai ein gwaith ar yr elfen hon fod yn fwy helaeth. Mae dealltwriaeth dda o'r 'byd sydd ohoni' yn hanfodol ar gyfer dylunio'r sefyllfa wrthffeithiol rydyn ni'n ei defnyddio i fesur effaith yn nes ymlaen.

4.11 Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i wella ein dealltwriaeth o'r sefyllfa. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth sydd gennym eisoes, fel ymchwil i'r farchnad neu ddata cwynion. Gallwn benderfynu gynnal ymchwil newydd, fel comisiynu adroddiadau neu gynnal ein harolygon, ein harbrofion a'n dadansoddiad ein hunain. Gallwn hefyd benderfynu casglu rhagor o wybodaeth gan randdeiliaid yn gynnar, a hynny'n anffurfiol drwy alwad am dystiolaeth neu, mewn rhai achosion, gan ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth statudol.

4.12 Bydd ein gwaith o gasglu gwybodaeth yn gynnar yn dylanwadu ar drywydd y prosiect, ac efallai y byddwn yn penderfynu ceisio gwybodaeth newydd drwy gydol y prosiect.

**Enghreifftiau o brosiectau blaenorol:**

Roeddem wedi defnyddio galwad am dystiolaeth i ddylanwadu ar ein safbwynt ynghylch defnyddio'r band 6GHz uwch yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2023. Roedd ymatebion rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at nifer o wasanaethau a defnyddiau a fyddai'n elwa ar ddefnyddio'r band. Roedd ymatebion yr alwad am dystiolaeth, ynghyd â gwaith ymgysylltu arall a'n dadansoddiad ein hunain, wedi cyfrannu at ein penderfyniad i ffafrio canlyniad "dim newid". Byddwn yn ymgynghori ar wahân ar gynigion penodol ynghylch defnyddio'r band. [28]

4.13 Fel y nodwyd uchod, rydyn ni'n disgwyl cynnal asesiadau effaith mewn cysylltiad â mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi. Pan fyddwn yn gwneud hynny, byddwn yn ystyried ffurf briodol yr asesiad effaith yn gynnar yn y prosiect, ac yn ailasesu fel y bo'n briodol.

Byddwn yn dechrau ystyried effaith bosib polisi, a sut byddwn yn ei hasesu, yng nghamau cyntaf prosiect.

---


[26] Rydyn ni hefyd yn annog pobl i gofrestru ar gyfer ein diweddariadau e-bost i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.

[27] Ymysg yr enghreifftiau o gyrff mewnol mae ein Pwyllgorau Cynghori yn y Gwledydd, y Pwyllgor Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn ac Anabl, a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Mae enghreifftiau o gyrff allanol yn cynnwys elusennau a Chyngor ar Bopeth.

[28] Diweddariad ar y band 6 GHz uchaf (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/248770/update-on-upper-6hz-band.pdf)

# Archwilio posibiliadau

4.14 Pan fydd gennym ddealltwriaeth ddigonol o’r sefyllfa, byddwn yn ystyried yr amcan(ion) rydyn ni’n dymuno ei gyflawni a’n dull gweithredu posib.




4.15 Fel rheol bydd hyn yn cynnwys nodi ein hamcanion yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol perthnasol, deall y math o ymyriad polisi byddwn yn dymuno ei gynnal o bosib, a nodi’r effaith bosib ar ddefnyddwyr, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill. Byddwn hefyd yn ystyried y canlynol:

a) A oes modd inni ddefnyddio prosiect i gael gwared ar wahaniaethu neu i wella neu hybu cyfleoedd cyfartal neu gysylltiadau da, ac os felly, sut mae gwneud hynny.
b) Os yw Safonau’r Gymraeg yn berthnasol, sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu leihau’r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

4.16 Bydd pennu ein hamcanion cyffredinol ar ddechrau prosiect yn golygu ystyried nifer o wahanol ddyletswyddau statudol sy’n berthnasol i achos penodol yn aml (gan gynnwys ein prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, dyletswyddau penodol i sectorau, a’n dyletswyddau i ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl).

4.17 Ni fydd yr ateb mwyaf effeithiol i gyflawni un ddyletswydd yr ateb mwyaf effeithiol i gyflawni un arall o reidrwydd. Yn yr achosion hyn, byddwn yn cynnal ymarfer cydbwyso ac yn gwneud penderfyniad ynghylch ein hamcanion cyffredinol, gan ystyried y dyletswyddau hyn sy’n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

4.18 Byddwn dim ond yn ymyrryd pan fyddwn yn fodlon y bydd ein hymyriad yn effeithiol o ran cyflawni ein hamcanion, ac yn gwneud hynny yn y ffordd leiaf ymwthiol. Mae’n dal yn bosib y bydd hyn yn golygu gwneud penderfyniadau mawr â chostau uchel iawn o bosib os ydyn ni’n credu mai’r penderfyniad hwnnw yw’r ffordd fwyaf effeithiol a chymesur o gyflawni ein hamcanion.

4.19 Mewn rhai achosion mae amrywiaeth o ddulliau gweithredu rheoleiddiol ar gael i ni, gan gynnwys peidio â chymryd unrhyw gamau a/neu barhau i fonitro’r sefyllfa. Lle bo’n briodol, byddwn yn ystyried manteision, costau a risgiau gwahanol ddulliau gweithredu i’n helpu i benderfynu ar y dull gorau ar gyfer cyflawni ein hamcanion. Mewn achosion eraill, mae deddfwriaeth yn pennu ein dull gweithredu. Bydd y dulliau priodol i’w harchwilio bob amser yn dibynnu ar gyd-destun y penderfyniad ac ar ein hamcanion.

4.20 Dylem allu esbonio sut bydd dull gweithredu’n arwain at y canlyniadau a ddymunir hefyd. Gall ‘damcaniaeth newid’ fod yn adnodd defnyddiol yn hyn o beth.[29] Efallai y byddwn yn cyhoeddi’r gwaith hwn ar wahân, ond beth bynnag bydd y dogfennau ymgynghori a’r datganiad yn nodi’n glir sut rydyn ni’n disgwyl i’n hymyriad gyflawni ein hamcanion.


[29] Gweler adran 2.2.1. o’r Llyfr Magenta (https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book)

4.21 Pan fyddwn yn credu ei fod yn ddefnyddiol, efallai y byddwn yn archwilio posibiliadau ac yn cynnal dadansoddiad manylach o ddull penodol ar yr un pryd. Mae'r ddwy elfen hon yn gweithio ar y cyd i'n helpu i benderfynu ar y dull gorau i gyflawni ein hamcanion. Efallai y byddwn hefyd yn dychwelyd i'r elfen hon os bydd y sefyllfa'n newid neu os daw gwybodaeth newydd i'r fei.

4.22 Ar ôl ystyried dulliau gweithredu posib, bydd hynny'n arwain fel rheol at ffafrio un neu ragor o ddulliau yn glir. Bydd y dull rydyn ni'n cynnig ei fabwysiadu'n golygu bod angen dadansoddiad pellach fel arfer, a fydd yn cael ei gyflwyno yn ein hymgynghoriad a'n datganiad. Ni fyddwn yn asesu dewisiadau sy'n amlwg yn anymarferol a byddwn yn neilltuo adnoddau i'r asesiad effaith sy'n gymesur ag effaith ddisgwyliedig y penderfyniad.

Gallwn ddefnyddio asesiadau bras o gostau, manteision a risgiau dulliau gweithredu posib i helpu i ddewis dull sy'n cael ei ffafrio.

## Asesu cynnig




4.23 Pan fydd gennym ddealltwriaeth ddigonol o'r dulliau gweithredu mwyaf ymarferol a fydd yn cyflawni ein hamcanion, byddwn yn ystyried a yw rhai dulliau, neu agweddau penodol ar ddulliau, yn golygu bod angen asesiad manylach o'r manteision, y costau a'r risgiau posib.

4.24 Yn y paragraffau canlynol, rydyn ni'n trafod y math o ddadansoddiad rydyn ni'n disgwyl ei gynnal yn gyffredinol fel rhan o asesiad manwl, gan gynnwys (i) nodi sefyllfa wrthffeithiol; (ii) y prif egwyddorion sy'n berthnasol i'n dadansoddiad; (iii) asesu'r effeithiau ar grwpiau penodol o bobl; a (iv) sut rydyn ni'n disgwyl monitro a gwerthuso dull gweithredu penodol.

4.25 Mae'r math hwn o strwythur yn adnodd i helpu i ddylanwadu ar ddyfarniadau rheoleiddio – nid yw'n eu disodli. Dylai'r math o asesiad a ddewisir fod yn gymesur ag effaith ddisgwyliedig y prosiect. Ar gyfer prosiectau mawr, cymhleth â mynediad at ddata ariannol, gallai fod yn ddadansoddiad costau a manteision meintioledig, ac ar gyfer prosiectau eraill gallai fod yn asesiad cwbl ansoddol. Pa ffordd bynnag rydyn ni'n asesu'r effaith, byddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth a'r technegau mwyaf priodol yn ein barn ni.

4.26 Er enghraifft, ar gyfer penderfyniadau sy'n debygol o achosi goblygiadau sylweddol i'n rhanddeiliaid neu a allai gael effaith sylweddol ar yr holl ddefnyddwyr, efallai y byddwn yn credu bod asesiad effaith manylach yn briodol. Fodd bynnag, ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â newid bach[30] neu un rhanddeiliad,[31] efallai y byddwn yn credu bod asesiad effaith mwy syml yn ddigon.

[30] Er enghraifft, gallem fod yn ymgynghori ar wneud newidiadau gweinyddol i sbectrwm neu drwyddedau darlledu lle nad oes rhaid i drwyddedeion wneud unrhyw beth, neu nad ydynt yn newid hawliau a rhwymedigaethau trwyddedeion yn sylweddol.
[31] Er enghraifft, gallem fod yn ymgynghori ar roi pwerau i ddarparwr rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig, a allai gael effaith gul yn ddaearyddol.

4.27 Gellir defnyddio'r asesiad pellach rydyn ni'n ei gynnal i ddylanwad ar ein gwaith archwilio posibiliadau a/neu fod yn rhan o'n rhesymeg dros gynnig dull gweithredu penodol mewn ymgynghoriad neu ddatganiad.

## Nodi sefyllfa wrthffeithiol

4.28 Mae'n hollbwysig nodi sefyllfa wrthffeithiol ar gyfer dadansoddiad asesiad effaith, oherwydd dim ond drwy gymharu â sefyllfa arall benodedig y gellir asesu effaith ymyriad. Mae sefyllfa wrthffeithiol yn cyflwyno'r 'byd sydd ohoni' heb y newid polisi sy'n cael ei ystyried. Mae'r sefyllfa wrthffeithiol yn gweithredu fel llinell sylfaen a'r gwahaniaeth rhwng y sefyllfa wrthffeithiol a'r 'ffeithiol' (y byd sydd ohoni yn cynnwys y cynnig polisi) sy'n dangos effaith y dewis hwnnw. Mae angen barn broffesiynol i ddylunio'r sefyllfa wrthffeithiol.

4.29 Sefyllfa 'gwneud dim' (neu 'busnes fel arfer') yw'r sefyllfa wrthffeithiol safonol yn aml, ond nid yw wedi'i chyfyngu i hynny. Mae'r dull gweithredu sefyllfa 'gwneud dim' yn ystyried beth gallai ddigwydd i'r sefyllfa bresennol pe na baem yn cymryd unrhyw gamau. Gall y sefyllfa wrthffeithiol hon hefyd gynnwys tueddiadau mawr sy'n bodoli ar hyn o bryd, newidiadau disgwyliedig mewn technoleg, neu newidiadau i strwythur y farchnad, neu newidiadau polisi disgwyliedig gan sefydliadau eraill sy'n debygol o effeithio ar y farchnad dan sylw dros gyfnod hirach.

4.30 Mewn rhai achosion, mae asesiadau effaith yn rhai 'ychwanegol', er enghraifft pan fydd y llywodraeth yn gwneud penderfyniadau polisi a dim ond effeithiau ychwanegol unrhyw benderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud wrth roi'r polisi ar waith mae angen eu hasesu. Ar gyfer asesiadau effaith o'r fath, efallai nad y sefyllfa 'gwneud dim' fydd y sefyllfa wrthffeithiol briodol. Yn yr achosion hyn, nid yw'r sefyllfa wrthffeithiol briodol yn cyflwyno'r 'byd sydd ohoni' lle nad ydyn ni'n ymyrryd, oherwydd mae ymyrryd yn ofyniad cyfreithiol. Yn hytrach, gallai fod yn sefyllfa lle rydyn ni'n ymyrryd cyn lleied â phosib. Yn yr achos hwn, gellir asesu gwahanol ddewisiadau o ran sut gallwn roi polisi'r llywodraeth ar waith yn seiliedig ar eu heffeithiau.

4.31 Os oes ansicrwydd sylweddol ynghylch sefyllfa wrthffeithiol, gallwn ddefnyddio profion sensitifrwydd neu dechnegau eraill i brofi cadernid ein hasesiad mewn cysylltiad â gwahanol dybiaethau am y byd.

## Prif egwyddorion

4.32 Wrth gynnal ein dadansoddiad, byddwn yn ystyried y prif egwyddorion a nodir isod fel rheol. Bydd y ffurf a'r manylder yn dibynnu ar natur y cynnig polisi, a'r hyn sy'n gymesur yn yr amgylchiadau yn ein barn ni. Yn ymarferol, rydyn ni'n disgwyl gwneud y canlynol yn gyffredinol:

a) canolbwyntio ar y costau a'r manteision mwyaf arwyddocaol, a pheidio â threulio gormod o amser yn ystyried costau a manteision cymharol fân yn ein barn ni;
b) cynnwys y costau a'r manteision mwyaf arwyddocaol, p'un ai ei bod hi'n bosib eu mesur ai peidio;
c) mesur effeithiau lle bo hynny'n bosib ac yn gymesur, gan gydnabod y gallai tystiolaeth o effeithiau anariannol ac anfesuradwy fod yn bwysig iawn mewn penderfyniadau polisi;
d) cyn belled ag y bo modd, gwneud hi'n glir pwy sy'n gyfrifol am y costau a phwy sy'n elwa ar y manteision, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'r effeithiau ar is-grwpiau o randdeiliaid y diwydiant a grwpiau penodol o bobl;

e) cynnwys costau gweithredu Ofcom os gallent arwain at ffioedd gweinyddol uwch i randdeiliaid;
f) nodi ac esbonio'r tybiaethau a'r prif elfennau ansicr;
g) dim ond ystyried y costau a'r manteision a fyddai'n codi'n rhesymol o ganlyniad i roi polisi ar waith (yn wahanol i'r costau a'r manteision a fyddai'n codi beth bynnag);
h) lle bo'n bosib, nodi a rhoi cyfrif am gostau cydymffurfio â rheoliad, ee costau sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth reoleiddiol neu fodloni gofynion technegol newydd;
i) lle bo'n briodol, ystyried yr effeithiau tebygol ar gystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi;
j) lle bo'n berthnasol, ystyried polisïau eraill a allai effeithio ar ganlyniad ein camau gweithredu, a allai fod yn bolisïau eraill Ofcom neu'n gam gweithredu disgwyliedig gan lywodraeth neu gorff arall;
k) rhoi sylw i'r prif risgiau a sgileffeithiau posib ein polisïau, a sut byddai modd eu lliniaru, gan nodi nad yw'n ymarferol mynd ati i nodi pob un risg neu sgileffaith anfwriadol bosib;
l) nodi ac esbonio'r tybiaethau a'r prif elfennau ansicr.

4.33 Wrth gynnal asesiadau effaith, gallwn gyfeirio at ganllawiau cyhoeddedig sefydliadau eraill am esboniadau o dechnegau penodol os ydyn ni'n credu eu bod yn berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys Llyfrau Gwyrdd[32] a Magenta[33] Trysorlys EF, adolygiad o asesiadau effaith y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio,[34] a chanllawiau asesiadau o'r effaith ar gystadleuaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.[35]

**Enghreifftiau o'r meysydd i'w hystyried:**

- **Ymddygiad:** gallwn ddefnyddio technegau gwybodaeth am ymddygiad neu adnoddau eraill i ystyried sut gallai ymddygiad defnyddwyr neu randdeiliaid newid effaith polisi.
- **Effaith ar fusnesau:** lle bo'n berthnasol, byddwn yn sicrhau ein bod yn deall y modelau busnes sy'n gweithredu mewn marchnad ac yn ystyried yr effeithiau uniongyrchol a, lle bo'n bosib, effeithiau anuniongyrchol ein polisi arfaethedig ar gyfranogwyr drwy'r diwydiant cyfan. Byddwn yn ystyried sut gallai'r polisi effeithio ar allu a chymhelliant cwmnïau i fuddsoddi'n effeithlon, ac efallai'n ystyried sut gallai effeithio ar gystadleuaeth, ar arloesi ac ar dwf economaidd.
- **Modelau sy'n bodoli eisoes:** lle bo'n briodol, gallwn ddefnyddio modelau sy'n bodoli eisoes i ddylanwadu ar ein hasesiad o'r costau a'r manteision, er enghraifft ein model niwed i ddefnyddwyr ar-lein.[36]
- **Daearyddiaeth:** lle bo'n berthnasol, byddwn yn ystyried sut gallai effeithiau polisi amrywio rhwng gwahanol rannau o'r wlad. Wrth wneud penderfyniadau am ardal leol, byddwn yn ystyried y data priodol i'w ddefnyddio yn ein hasesiad.

[32] https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent/the-green-book-2020
[33] https://www.gov.uk/government/publications/the-magenta-book
[34] https://www.gov.uk/government/publications/impact-assessments-room-for-improvement
[35] https://www.gov.uk/government/publications/competition-impact-assessment-guidelines-for-policymakers
[36] Sut mae pobl yn cael eu niweidio ar-lein: profi model o safbwynt defnyddwyr (https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/online-research/how-people-are-harmed-online)

## Asesu'r effeithiau ar grwpiau penodol o bobl

4.34 Wrth asesu sut gallai cynnig effeithio ar grwpiau penodol o bobl, byddwn yn gwneud y canlynol fel arfer:

a) Ystyried sut gallai cynnig effeithio ar gyfleoedd cyfartal neu gysylltiadau da.
b) Ystyried yr effeithiau posib ar bobl sy'n rhannu o leiaf un nodwedd warchodedig.
c) Yn fwy cyffredinol, ystyried yr effeithiau posib ar y grwpiau penodol o bobl a nodir ym mharagraff 4.7 uchod.
d) Ystyried a allai cynnig wahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol o bobl neu gael effaith niweidiol arnynt, ac os felly sut, neu a yw'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y bobl hyn. Wrth wneud hynny, cyn belled ag y bo modd byddwn yn ystyried y canlynol:

i) Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posib. Er enghraifft, byddwn yn ystyried sut gallai cynigion sy'n ymwneud â phrisio neu llythrennedd ar-lein gael effaith benodol ar grwpiau penodol o bobl.
ii) Croestoriadedd a sut gallai cynnig gael effaith gronnol neu wahanol ar bobl sy'n perthyn i o leiaf un grŵp penodol.

4.35 Byddwn yn ystyried ac yn adolygu effeithiau posib drwy gydol prosiect a, lle bo'n briodol, yn diwygio ein hasesiad wrth i'n safbwyntiau ddatblygu.

4.36 Mewn rhai achosion, efallai na fyddwn yn credu bod gan gynnig unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb neu effeithiau gwahanol ar grwpiau penodol o bobl. Mewn llawer o achosion, efallai na fyddwn wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol ond wedi nodi amryw o effeithiau cadarnhaol. Mewn achosion lle rydyn ni wedi nodi effeithiau niweidiol posib, byddwn yn mynd ati i ddileu neu liniaru'r effeithiau hynny i'r graddau sy'n ymarferol, yn briodol ac yn gymesur yn ein barn ni.

4.37 Fel yr esboniwyd ym mharagraff 4.15 uchod, pan fydd Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, byddwn yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig penodol er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

## Monitro a gwerthuso

4.38 Dylai asesiad ymyriad arfaethedig ystyried ein dull o fonitro a gwerthuso'r polisi hefyd. Os credir ei bod yn briodol, byddwn yn monitro ac yn gwerthuso canlyniadau go iawn polisi mewn ffordd gymesur. Gall hyn ddigwydd drwy ein rhaglen monitro sectorau barhaus, rhaglenni ymchwil sy'n bodoli eisoes, neu waith gwerthuso wedi'i dargedu yn nes ymlaen. Yn dibynnu ar natur ymyriad rheoleiddiol, efallai y byddwn yn credu ei bod hi'n briodol asesu ei effaith ehangach hefyd, er enghraifft ar draws marchnad gyfan.

4.39 Os ydyn ni'n cynnig adolygu ein penderfyniad ar adeg benodol, byddwn yn nodi hyn yn ein dogfennau ymgynghori a'n datganiad.

4.40 Mae gwerthuso'n gwella ein prosesau llunio polisi drwy ein galluogi i weld lle nad yw pethau wedi gweithio fel yr oeddem yn ei ddisgwyl, ac i ddysgu o'r achosion hyn. Fel y nodir yn ein cynllun gwaith blynyddol, mae gennym raglen barhaus o werthusiadau terfyn rhaglen i'n helpu i ddeall effaith ein gwaith ar ganlyniadau i ddefnyddwyr. Rydyn ni'n cyhoeddi'r gwerthusiadau hyn ar ein gwefan.

4.41 Mae asesu effaith a gwerthuso yn brosesau sy'n ategu ei gilydd, lle mae'r naill yn helpu i wella'r llall: mae'r gwersi sy'n cael eu dysgu drwy werthuso yn gwella ein dull gweithredu ar


gyfer asesiadau effaith, ac mae asesiadau effaith da yn ein helpu i werthuso effeithiau polisïau ar ôl eu rhoi ar waith mewn ffordd fwy cadarn.

4.42 Ar ben hynny, lle bo'n berthnasol, mae gennym ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau i (i) rhoi sylw i ba mor ddymunol yw hybu a hwyluso datblygiad a defnydd o fathau effeithiol o hunan-reoleiddio (adran 3(4)); a (ii) adolygu ein gwaith yn barhaus i sicrhau nad ydyn ni'n cyflwyno neu'n cadw rheoliadau sy'n feichus heb fod rhaid (adran 6(1)).

4.43 Ar gyfer newidiadau ar raddfa fwy i bolisi, gallwn ystyried beth fyddai ei angen ar werthusiad terfyn rhaglen yn ystod ein hasesiad effaith. Ni fyddwn yn cynnal gwerthusiad terfyn rhaglen ar gyfer pob polisi ond pan fyddwn yn penderfynu ei bod hi'n briodol gwneud, mae ein safbwyntiau gwreiddiol ar yr amserlen, y fethodoleg a'r gofynion data yn fan cychwyn defnyddiol.

Gall asesiad cymesur o gynnig ddefnyddio technegau meintiol ac ansoddol, a bydd yn ystyried monitro a gwerthuso fel rheol.

## Cyflwyno ein rhesymu




4.44 Pan fyddwn yn fodlon ein bod wedi asesu effaith un neu ragor o ddulliau gweithredu yn ddigonol, byddwn yn penderfynu pa ddull (neu ddulliau) i'w cyflwyno fel cynnig (neu gynigion) mewn dogfen ymgynghori. Bydd yr ymgynghoriad yn crynhoi effaith ddisgwyliedig ein cynnig/cynigion. Mewn geiriau eraill, mae asesiad effaith yn adnodd i'n helpu i benderfynu ar ddull gweithredu, ac yn isgasgliad o'n safbwyntiau sy'n crynhoi ein rhesymeg a'n tystiolaeth, ac y mae'n rhaid inni ei gyflwyno i randdeiliaid yn ein hymgyngoriadau.

4.45 Bydd ffurf ein hasesiad effaith yn amrywio yn ôl y sefyllfa, fel y trafodwyd yn adran 2 uchod.

4.46 Weithiau, efallai y bydd strwythur yr asesiad effaith yn deillio o ddeddfwriaeth, a'r ffactorau i'w hasesu wedi'u nodi yn y gyfraith. Fel arall, byddwn yn ystyried ffurf a manylder priodol asesiad fesul achos. Byddwn hefyd yn esbonio'r dull gweithredu rydyn ni wedi'i fabwysiadu ar gyfer yr asesiad effaith yn gyffredinol yn ein hymgynghoriad, er mwyn i randdeiliaid allu gwneud sylwadau ar hyn fel rhan o'u hymateb.

4.47 Bydd unrhyw asesiad hefyd yn crynhoi ein casgliadau cychwynnol mewn cysylltiad ag effeithiau posib ein cynnig ar grwpiau penodol o bobl. Bydd ffurf a manylder yr asesiad hwn yn dibynnu ar natur y cynnig polisi, a'r hyn sy'n gymesur yn yr amgylchiadau yn ein barn ni. Er enghraifft, os bydd cynnig yn cael effaith niweidiol ar nifer o grwpiau penodol o bobl o bosib, mae ein hasesiad yn debygol o fod yn fwy manwl. Ond os ydyn ni'n credu mai dim ond effeithiau cadarnhaol y caiff cynnig ar grwpiau penodol o bobl, neu y bydd yn effeithio arnynt yn yr un modd a'r boblogaeth gyffredinol, mae'r asesiad yn debygol o fod yn fyrrach o lawer.

4.48 Pa ffordd bynnag y caiff yr asesiad effaith ei gyflwyno, mae'n bwysig bod ein tystiolaeth a'n rhesymeg yn cael eu nodi'n glir. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth drafod y dulliau gweithredu rydyn ni wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â nhw, unrhyw dybiaethau rydyn ni wedi'u gwneud, a maint ac effaith bosib y costau a'r manteision sydd heb eu mesur.

4.49 Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cyflwyno ein penderfyniad terfynol mewn datganiad ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd y datganiad yn esbonio ein rhesymeg, gan gynnwys unrhyw addasiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'n hasesiad effaith.

**Enghreifftiau o brosiectau blaenorol:**

Roedd yr ymgynghoriad ar egluro'r defnydd o rifau symudol gan ddarparwyr cyfathrebiadau yn cyflwyno esboniad clir, ansoddol o effaith y newid i rifau'r ystod 07x.[37] Mae'r isdeitl "Impact of the proposed modification" (adran yn y fersiwn Saesneg yn unig) yn ffordd o gyfeirio. Mae "The vast majority of uses…will be unaffected" (rhan o'r fersiwn Saesneg yn unig) yn enghraifft o eglurder heb feintoliad. Mae'r adran yn crynhoi'r wybodaeth fanwl yn y ddogfen drwyddi draw ac yn esbonio pam ein bod yn credu bod y manteision yn drech na'r costau.

Byddwn yn cyflwyno ein rhesymeg a'n tystiolaeth yn glir yn ein hymgyngoriadau a'n datganiadau er mwyn i randdeiliaid allu ymateb i'n hasesiad o'r effeithiau posib

[37] Gweler paragraffau 4.13-4.18 (https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/modification-national-telephone-numbering)